Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Gymunedol Eglwyswrw
Eglwyswrw
Crymych
Sir Benfro
SA41 3SN

27/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymunedol Eglwyswrw yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad ag arweinwyr, disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad yn addas.
- Maent wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent yn arfogi athrawon i ymweld ag ysgolion cyfagos er mwyn arsylwi ar arferion effeithiol, ac i arbrofi â gwahanol ddulliau wrth ddatblygu annibyniaeth disgyblion. Maent yn hyrwyddo amgylchedd o ddysgu proffesiynol parhaus ac yn annog staff i rannu arferion gorau gyda'i gilydd yn bwrpasol. Mae hyn yn cyfrannu'n briodol at ddatblygu annibyniaeth disgyblion ar draws yr ysgol.
- Ar y cyfan, yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae staff yn darparu ardaloedd ysgogol i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol a chymhwyso eu medrau'n briodol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Yn ystod y sesiynau hyn, mae staff yn hwyluso'r dysgu yn effeithiol drwy holi bwriadus sy'n cefnogi disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu yn llwyddiannus.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae athrawon y disgyblion hynaf yn arbrofi â gwahanol ddulliau wrth ddatblygu annibyniaeth disgyblion. Drwy sesiynau yn yr awyr agored, mae disgyblion yn dechrau cael profiadau dilys i weithio'n annibynnol drwy ddewis sut i gofnodi eu gwaith. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion at eu dysgu.
- Bellach, mae arweinwyr ac athrawon yn dechrau cysoni'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol er mwyn gwreiddio yn llawn fedrau annibynnol disgyblion.

## Sicrhau lefel briodol o her ar gyfer pob disgybl

- Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at fodloni gofynion yr argymhelliad hwn. Mae hi'n cydnabod y gwelliannau yn y ddarpariaeth ers yr arolygiad craidd, ac yn adnabod yn glir elfennau sydd angen eu gwella ymhellach.
- Mae'r pennaeth yn trefnu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol addas i staff. Mae hyn yn dyfnhau eu dealltwriaeth o ddulliau addysgu effeithiol ac yn eu cefnogi i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion yn briodol.
- Mae staff yn cydweithio'n fwriadus i ddarparu gweithgareddau dysgu heriol sy'n adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae hyn yn cefnogi, ennyn a chynnal diddordeb disgyblion a'u parodrwydd i ymgymryd â'u tasgau.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu gweithgareddau pwrpasol o ran her i ddiwallu anghenion disgyblion. Maent yn dechrau defnyddio dulliau holi priodol i gefnogi a herio dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i gysoni ymhellach y trefniadau ar gyfer cynnig adborth sydd yn herio disgyblion i symud eu dysgu i'r cam nesaf.
- Yn ystod sesiynau dysgu, mae cynorthwywyr yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau ymhellach yn effeithiol. Mae cynorthwywyr yn herio disgyblion i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau ymarferol yn yr ardal allanol yn synhwyrol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: [http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6682209](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6682209)

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol